


Ffurio ein dyfodol:

Dechrau blwyddyn newydd o hyfforddiant gweinidogaeth

Yn wythnos olaf ond un mis Gorffennaf daeth ymgeiswyr gweinidogaeth newydd o Dŷ Ddewi i ymuno ag ymgeiswyr newydd a rhai mewn bodolaeth ar draws y wlad am ysgol haf ar-lein i gychwyn eu hyfforddiant am y weinidogaeth drwyddedig. Gallwn fod yn fodlon a dathlu bod yr hyfforddiant yn parhau yn y cyfnod ansicr hyn, meddai J-D Laurence, Tiwtor Sant Padarn dros Esgobaeth Tŷ Ddewi

Yn dechrau ar eu hyfforddiant eleni yn Sant Padarn o'n hesgobaeth y mae pedwar NSM(L), un darlennydd lleysg a thri cyflogedig, ac y mae gennym un cyflogedig llawn amser yn barod o dan hyfforddiant. Er nad oedd hyn yn hyfforddiant trwytho fel y byddai wedi bod petaem wedi gallu mynd i ffwrdd gyda'n gilydd am wythnos, serch hynny, yr oeddem wedi gallu creu cyfeillgarwch, addoli gyda'n gilydd, dysgu sgiliau gweinidogaethu allweddol, a chael ein hysbrydoli gan siaradwyr cyweirnod, popeth drwy Zoom!

Wedi Boreol Weddi, a gynhaliwyd bob yn ail â grwpiau gweddi, fe wrandawom ar dri siaradwr cyweirnod dros gyfnod yr wythnos ar thema ysbrydolrwydd: y Tad Dominic McClean (Cyfarwyddwr Gweinidogaeth, Esgobaeth Bangor), Parch Ddr Trystan Owain Hughes (Ficer Eglwys Crist, Parc y Rhâth, a Thiwtor mewn Diwinyddiaeth Cymhwysol yn Sant Padarn) a'r Gwir Barchedig Jill Duff (Esgob Lancaster, gweler y llun). Fe'n harweiniwyd ganddynt i archwilio traddodiad Ignatiaidd ac ymarferion gweddi dychmygus, darganfod gobaith ac ystyr mewn dioddefaint, a darganfod ysbrydolrwydd a gweddi sy'n ein cynnal dros sawl traddodiad. Cawsom y cyfle i 'roi tro' ar wahanol ymarferion ac yna i adrodd a thrafod ein profiad gyda'r grŵp a'r siaradwyr.



Wedi cinio Zoom 'galwch mewn', pan gallai unrhywun a ddymunai sgwrsio gydag unrhywun arall oedd wedi mewngofnodi, yn y sesiynau prynhawn roedd canolbwyntio ar sgiliau gweinidogaethol: rhanwyd yr ymgeiswyr i bedwar grŵp i ddysgu am Arwain Addoliad a Phregethu, Gofal Bugeiliol, Gweinidogaeth Arloesol, neu Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Gorffennodd yr wythnos gyda hyfforddiant diogelu gorfodol i ymgeiswyr newydd, ac fe lwyddon ni i gynnal noson gwis anffurfiol!

Efallai ein bod yn dal mewn amserau ansicr fel gwlad, ac nid yw eglwys yn edrych fel yr hyn a ystyrir yn 'normal' ond y mae Duw yn dal wrth Ei waith. Mae Ef yn dal i alw pobl l'w wasanaethu yn Ei Frenhiniaeth, ac y mae'r bobl hyn yn dal i gael eu hyfforddi a'u paratoi i chwarae eu rhan. Beth amdanoch chi?

Gallwch fy ebostio ar jd.laurence@stpadarns.ac.uk neu ffonio 07552 385330